



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC

Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Eich cyf:

Ein cyf: EJ/RT

20 Mehefin 2018

Annwyl Mick

### **Diweddariad ar y cynnig o ran Cynhadledd y Llefaryddion**

Argymhellodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad ar ***Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd***, y dylai'r Llywydd geisio:

*sefydlu, ar y cyd â Llefaryddion a Llywyddion deddfwrfeydd eraill y DU, Gynhadledd y Llefaryddion gyda'r nod o benderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu gweithio rhwngseneddol yn y DU, yn enwedig fel modd o graffu ar effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar fframwaith cyfansoddiadol y DU.*

Trafodais eich argymhelliad gyda fy nghyd-Llefaryddion yn ein cyfarfod pedairochrog diweddar, gyda'r bwriad o sefydlu dealltwriaeth ar y cyd o'r cynnig, gan fesur yr awydd am wneud gwaith pellach yn y maes hwn, ac ystyried y camau nesaf posibl.

Rydym yn cydnabod gwerth posibl Cynhadledd fel yr argymhellir gan eich Pwyllgor, ac rydym yn agored i ystyried y mater ymhellach. Cytunwyd, fodd bynnag, y byddai'n rhaid i Gynhadledd o'r fath fod ar wahân i'r cyfarfodydd pedairochrog presennol, y mae iddynt ddiben gwahanol.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Yn ystod ein trafodaethau, fe wnaethom drafod sefyllfaoedd pob un ohonom a'r traddodiadau gwahanol y mae pob Llefarydd yn gweithredu ynddynt, a chytunwyd y byddai angen ystyried hyn wrth i'r materion hyn gael eu datblygu.

Nodwyd hefyd waith Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ar gyfer ei ymchwiliad i ddatganoli ac ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Byddai unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwnnw maes o law, ynghyd â barn ac argymhellion pwyllgorau eraill ar draws y deddfwrfeydd a chyrrff rhyngseneddol, fel y fforwm rhyngseneddol ar Brexit, yn ddefnyddiol i lywio'r ystyriaeth o ran sut y byddai modd datblygu gwaith rhyngseneddol drwy wahanol ffyrdd.

Credaf y byddai ystyriaeth bellach o'r goblygiadau posibl o ran pwrpas, mandad ac aelodaeth unrhyw Gynhadledd Llefaryddion yn werthfawr. Byddai unrhyw gyngor neu ymchwil arbenigol pellach y gallai eich Pwyllgor ei ddarparu o gymorth yn hyn o beth.

Byddwn yn hapus i rannu unrhyw wybodaeth bellach neu argymhellion mwy manwl sydd gennych gyda'm cyd-Lefaryddion maes o law.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd